Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Peniel

**Peniel**
**Caerfyrddin**
**SA32 7AB**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Peniel

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymunedol Peniel |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 124 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 110 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 2.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 5.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 62% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1 |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/02/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae sicrhau lles, gofal a hapusrwydd bob disgybl yn rhan annatod o ethos yr ysgol. Rhoddir pwyslais cadarn ar gynnal amgylchedd ddysgu deuluol, gofalgar, ysgogol a chymunedol lle gall ddisgyblion ddatblygu hyd orau eu gallu ym mhob agwedd o'u gwaith. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn hapus yn yr ysgol ac yn ymfalchïo mewn bod yn rhan o'i chymuned. Maent yn ymddwyn yn ardderchog gan ddangos lefel uchel o gwrteisi tuag at eraill. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac yn anelu at gyflawni safonau uchel gan ddangos mwynhad a balchder tuag at eu dysgu. Mae bron bob un yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae'r pennaeth yn arweinydd egnïol sydd â gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac sy'n gyrru gwelliant yn barhaus. Mae'r holl staff yn cydweithio'n ardderchog fel tîm ac yn rhoi egwyddorion arwyddair yr ysgol, sef 'Un tîm, un teulu - llwyddo gyda'n gilydd', ar waith yn llwyddiannus. Maent yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a chyfoethog i'r disgyblion, sy'n seiliedig ar waith thematig ac yn eu herio i wneud y cynnydd gorau posibl ar bob achlysur. Mae llywodraethwyr, rhieni ac aelodau'r gymuned leol yn cefnogi gwaith yr ysgol yn effeithiol.

Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o'u hunain ac o'r disgyblion ac maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol disgyblion yn llwyddiannus. Mae eu dulliau i ddatblygu iaith lafar ymestynnol y disgyblion yn hynod effeithiol, ac yn hyrwyddo'u dealltwriaeth a'u defnydd o dreigladau a berfau yn llwyddiannus iawn. Yn yr un modd, mae eu dulliau i hyrwyddo medrau darllen disgyblion hefyd yn hynod effeithiol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu cymhelliant, eu cynnydd a'u mwynhad mewn darllen. Mae hyn yn arwain at safonau uchel o lafaredd a darllen, sydd maes o law yn gwella ansawdd ysgrifennu'r disgyblion.

## Argymhellion

A1 Dylai'r ysgol barhau ar ei thaith gwella. Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn deillio o'r arolygiad hwn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas â:

- Cynllunio ar gyfer gwelliant i sicrhau'r profiadau gorau ar gyfer ei disgyblion
- Darpariaeth i wella medrau llafar Cymraeg ei disgyblion

i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau cyfathrebu Cymraeg a medrau cymdeithasol sy'n cyfateb i, neu sy'n uwch na'r disgwyl, am eu hoed. Tra byddant yn yr ysgol, mae bron bob un yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ym mhob agwedd o'u gwaith.

Mae medrau gwrando bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda iawn. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau a storïau ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n gywir a gwybodus. Mae bron bob un yn datblygu eu medrau llafar yn hyderus yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn sgwrsio am eu tasgau a'u profiadau dysgu mewn iaith aeddfed ac ymestynnol gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o bwrpas a chynulleidfa. Mae llawer yn ymateb yn llwyddiannus iawn i fodelu iaith bwriadus a meistrolgar athrawon ac yn cyfathrebu'n hyderus gan ddefnyddio geirfa gyfoethog. Mae medrau darllen bron bob un yn datblygu'n gadarn. Maent yn darllen testunau amrywiol at wahanol ddibenion gyda mynegiant a dealltwriaeth dda. O'r oed cynharaf hyd at frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau ysgrifennu. Mae llawer yn datblygu dealltwriaeth gadarn o nodweddion ystod eang o ffurfiau gan ddangos ymwybyddiaeth dda o bwrpas a chynulleidfa. Maent yn cymhwyso'u gwybodaeth am elfennau gramadegol a'u geirfa i'w tasgau hysgrifennu yn dda iawn.

Mae bron bob un disgybl yn defnyddio'u dealltwriaeth o wahanol gysyniadau mathemategol yn hyderus ac yn eu cymhwyso'n ddeallus mewn amrywiol gyd-destunau. Mae'r rheini sydd yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf yn dod i gyfri'n hyderus, gan arddangos dealltwriaeth gadarn o gyfatebiaeth un i un. Ar frig yr ysgol, mae bron bob un yn defnyddio'u dealltwriaeth o'r pedair rheol a'u gwybodaeth am werth lle yn effeithiol, er enghraifft i ddatrys problemau yn seiliedig ar gost adnewyddu tŷ.

Mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau digidol mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus i greu cyflwyniadau digidol, a phosteri, graffiau a siartiau i gyfleu gwybodaeth yn seiliedig ar waith eu themâu. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae llawer yn defnyddio taenlenni'n effeithiol i drin data a dod o hyd i wybodaeth berthnasol yn seiliedig arno.

Mae bron bob un disgybl yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn hyderus, yn llwyddiannus ac i safon uchel yn eu gwaith thematig. Er enghraifft, wrth ddilyn y thema 'Rhyfel Plentyn', bu disgyblion ar frig yr ysgol yn ysgrifennu dyddiadur milwr, deialog rhwng milwyr a cherddi am ffoaduriaid yn hynod effeithiol. Buont yn cywain a defnyddio data ar ddogni bwyd a defnyddio'u dealltwriaeth o ffracsiynau yn hyderus i ddatrys problemau sy'n ymwneud â bwydo teulu adeg y rhyfel. Defnyddiodd y rhan fwyaf eu medrau ymchwilio ar y we a'u dealltwriaeth o fas data yn synhwyrol i gofnodi enwau, cyfeiriadau ac oed pobl o'r ardal a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Defnyddiodd y rhan fwyaf eu medrau creadigol yn hynod effeithiol i greu lluniau o'r awyr goch yn ystod y Blits.

Fel rhan o'u thema 'Lawr y Lôn Goch', cynhaliodd y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 drafodaeth synhwyrol ar b'un a ydynt yn ffafrio pasta neu bitsa mewn bwyty Eidalaidd. Ysgrifennodd lawer ddisgrifiad diddorol o'r broses gwneud menyn a chofnodi arbrawf ar faint o ddŵr sydd mewn gwahanol fwydydd. Creodd y rhan fwyaf ddarnau barddoniaeth o safon uchel yn dwyn y teitl 'Pam', gan efelychu arddull gwahanol feirdd yn llwyddiannus. Defnyddiodd y rhan fwyaf eu medrau mathemategol yn llwyddiannus i gymharu prisiau nwyddau mewn gwahanol siopau, a'u medrau digidol i ymchwilio i'r gwledydd  mae gwahanol fwydydd anarferol fel hagis neu escargot yn tarddu ohonynt.

Ysgrifennodd disgyblion Blwyddyn 1 a 2 lythyr ffurfiol pwrpasol i ddiolch i staff amgueddfa leol yn dilyn eu hymweliad yno i ddysgu am fywyd yn yr ysgol yn y gorffennol ar y thema 'Peniel a Fi'. Dyluniodd eraill wahoddiad i fedydd yn y capel lleol. Defnyddiodd y rhan fwyaf eirfa hynod goeth gan amrywio'u brawddegau'n gelfydd. Datrysodd lawer broblem yn ymwneud ag odrifau ac eilrifau mewn cyd-destun yn seiliedig ar dai yn y pentref, a gosod lluniau o'r ysgol ddoe a heddiw yn gywir ar linell amser. Creodd lawer siart i gyfleu gwybodaeth am yr athrawon, fel nifer y blynyddoedd maent wedi gweithio yn yr ysgol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn hapus yn yr ysgol ac yn ymfalchïo mewn bod yn rhan o'u chymuned ofalgar a chynhwysol. Mae cyfradd presenoldeb uchel y disgyblion yn adlewyrchu hyn. Mae'r gyfradd hon yn uwch na chyfraddau cyfartalog presenoldeb ysgolion cynradd Cymru a'r awdurdod lleol ac yn gwella'n flynyddol. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwbl hyderus bod y staff yn gwrando ac yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae bron bob un yn datblygu dealltwriaeth effeithiol o werthoedd cadarn sy'n eu datblygu'n ddinasyddion moesegol, gwybodus ac egwyddorol. Maent yn ymddwyn yn ardderchog gan ddangos lefel uchel o gwrteisi tuag at eu cyfoedion, ac aelodau staff. Mae'r aeddfedrwydd a ddangosant wrth groesawu ymwelwyr i'r ysgol yn drawiadol. O ganlyniad, mae perthnasoedd cadarn yn gryfder amlwg ar draws yr ysgol. Amlygir hyn yn effeithiol yn y modd mae'r disgyblion hŷn yn gofalu am y disgyblion ifancaf yn ystod adegau egwyl.

Mae bron bob disgybl yn gwerthfawrogi bod staff yn ystyried eu barn mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Maent yn ymgymryd â'u rolau arweiniol yn gyfrifol a deallus. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus a pharod i gynnig eu syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu o fewn y themâu ac yn croesawu'r cyfleoedd i ddewis eu tasgau yn ogystal â sut maent am eu cyflwyno. Maent hefyd yn barod i gyfrannu at gynnwys eu proffiliau un dudalen, gan nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt fel unigolion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda iawn o bwysigrwydd gofalu am eu lles meddyliol ac emosiynol. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o'u hawliau yn effeithiol ac yn trafod eu teimladau'n agored. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn dda iawn, er enghraifft i'r 'Wal Deimladau' sydd ymhob dosbarth. Maent yn deall bod cyfleoedd fel hyn yn hyrwyddo eu lles a'u gwytnwch.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau sy'n effeithio ar eu hiechyd corfforol, gan gynnwys bwyta ac yfed yn iach a'r angen i

gadw'n heini. Mae disgyblion ar frig yr ysgol yn ymgymryd yn gydwybodol â'r cyfrifoldeb i gynnal siop ffrwythau lwyddiannus yn ystod amser egwyl sy'n profi'n boblogaidd gyda'u cyfoedion. Mae bron bob disgybl yn ymrwymo'n frwdfrydig i'w gwersi addysg gorfforol ac i'r ystod eang o weithgareddau fel clybiau chwaraeon yr ysgol, a chystadlaethau fel rygbi, pêl-droed, criced, pêl-rwyd a nofio.

Canolbwyntia bron bob disgybl yn dda am gyfnodau estynedig, gan wneud y gorau o'u hamser mewn gwersi. Maent yn dyfalbarhau ac yn dangos gwytnwch, er enghraifft wrth wynebu sefyllfaoedd heriol neu wybodaeth sy'n newydd iddynt. Maent yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r strategaeth Dysgwyr Disglair sy'n cydnabod a gwobrwyo elfennau pwysig fel ymdrech, dyfalbarhad a gwytnwch yn wythnosol.

Gweithia bron bob disgybl yn hwylus a diwyd mewn sefyllfa unigol, pâr, grŵp neu ddosbarth cyfan. Dangosant barch a chefnogaeth tuag at gyfraniadau a chyflawniadau ei gilydd. Maent yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu, yn ymateb i gyngor ar wella ac yn dangos hyblygrwydd ac aeddfedrwydd yn y modd maent yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn hwylus a diffwdan. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac yn anelu at gyflawni safonau uchel gan ddangos mwynhad a balchder tuag at eu dysgu. Maent yn cynnal cymhelliant ardderchog ac yn chwilfrydig tuag at eu tasgau. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o weithdrefnau cadw'n ddiogel ar lein a maent yn cymhwyso hyn yn effeithiol i'w tasgau dysgu.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang, cytbwys a chyfoethog, ac yn herio disgyblion yn llwyddiannus i wneud y cynnydd gorau posibl. Mae'r tîm addysgu, sef yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu, yn cydweithio'n agos ac yn gynhyrchiol i gynllunio profiadau cyffrous a diddorol i'r disgyblion, sy'n cefnogi egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus. Maent yn annog disgyblion i fynegi barn am yr hyn yr hoffent ei ddysgu ac i gynnig eu syniadau eu hunain wrth gynllunio themâu newydd ac yna'n defnyddio'u hawgrymiadau wrth baratoi'r gweithgareddau dysgu.

Mae'r tîm addysgu yn cynllunio'n bwrpasol i ddatblygu holl fedrau'r disgyblion, gan gynnwys eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae eu gwybodaeth bynciol yn dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel i herio'r disgyblion i gynhyrchu gwaith o ansawdd uchel. Maent yn cefnogi'r disgyblion i gymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Darperir amrywiaeth o gyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion yr adran dysgu sylfaen ddatblygu eu medrau creadigol, fel celf, cerddoriaeth a drama yn yr ardaloedd creu a pherfformio. Yn ogystal, darperir gweithgareddau bywiog sy'n ennyn diddordeb a gwybodaeth y disgyblion am eu hardal leol a thu hwnt, fel gwaith Blwyddyn 3 a 4 ar y Celtiaid a Blwyddyn 5 a 6 ar yr Ail Ryfel Byd.

Mae'r ysgol yn bodloni anghenion dysgu a lles bron bob disgybl wrth gynllunio'r cwricwlwm. Mae'r tîm addysgu'n cydweithio'n hynod lwyddiannus i gefnogi dysgu disgyblion yn fwriadus, gan sicrhau eu bod yn darparu cefnogaeth werthfawr iddynt. Mae'r tasgau'n adeiladu'n gydlynol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau cyfredol y disgyblion i sicrhau dilyniant wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i'w hannog i ddyfalbarhau'n annibynnol.

Mae athrawon yn rhoi ffocws clir ar addysgu medrau penodol o lythrennedd a rhifedd mewn gwersi ffurfiol ac yna'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion eu cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau yn eu gwaith thema. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 3 a 4, mae disgyblion yn dysgu am raddfa cyn cymhwyso'u medrau mesur i ddarganfod y pellter rhwng gwahanol leoliadau sy'n gysylltiedig â chwedlau enwog fel y Twrch Trwyth a Gelert ar fap o Gymru.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu'r disgyblion yn nodweddion cryf drwy'r ysgol. Er enghraifft, yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, defnyddir ystod o strategaethau, fel drilio, canu a chwarae rôl yn effeithiol iawn i hybu llafaredd disgyblion. Yn nosbarthiadau'r disgyblion eraill, fe'u hanogir i drafod eu syniadau am faterion fel gwyliau i'r gofod ar lafar cyn eu cofnodi'n ysgrifenedig mewn gwahanol ffurfiau. Mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol iawn i ddatblygu iaith lafar ymestynnol y disgyblion, ac i hyrwyddo'u dealltwriaeth a'u defnydd o elfennau ieithyddol fel treigladau a berfau. Mae'r tîm addysgu'n fodelau rôl ieithyddol gryf ac effeithiol ac mae pob un yn canolbwyntio ar ddatblygu llafaredd y disgyblion am gyfnod penodol bob dydd. Mae'r tîm addysgu hefyd yn datblygu strategaeth benodol i hyrwyddo medrau a mwynhad disgyblion wrth ddarllen. Mae hynny'n cael effaith gadarnhaol ar gymhelliant, cynnydd a mwynhad disgyblion mewn darllen. Mae hyn yn arwain at safonau uchel o lafaredd a darllen sydd maes o law yn gwella ansawdd ysgrifennu'r disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae'r tîm addysgu'n annog disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol. Er enghraifft, yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, maent yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddewis offer ac adnoddau addas i greu coron. Ar frig yr ysgol, maent yn annog y disgyblion i gyfansoddi darn o gerddoriaeth ddigidol arswydus i gyd-fynd â'u gwaith thema, 'Syllu ar y Sêr.'

Mae aelodau'r tîm addysgu'n defnyddio'r ardaloedd dysgu mewnol ac allanol yn effeithiol i ddarparu profiadau amrywiol i'r disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd difyr, er enghraifft i ddisgyblion y dosbarthiadau dysgu sylfaen ddefnyddio'r ardal allanol i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn y gegin fwd. Maent yn arbrofi â gwahanol offer i wneud teisen i Supertaten, gan gyfrif a thrafod yr hyn maent yn ei wneud ymysg ei gilydd.

Mae'r ysgol yn manteisio ar gyfraniad ymwelwyr ac ymweliadau i fannau diddorol i ehangu a chyfoethogi'r profiadau dysgu i ddisgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn ymweld â'r llyfrgell fel rhan o'u thema, 'Un Tro,' er mwyn hyrwyddo'u diddordeb ym myd llyfrau.

Mae'r tîm addysgu'n adnabod anghenion addysgol bron bob disgybl yn dda iawn ac yn darparu adborth adeiladol a phwrpasol iddynt ar lafar ac yn ysgrifenedig i gefnogi eu dysgu'n llwyddiannus. Maent yn holi disgyblion yn fedrus i wirio'u dealltwriaeth ac i ymestyn eu hymdrechion. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol a rheolaidd i ddisgyblion ymateb i'w sylwadau, lle bo'n briodol. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall yn union yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i lwyddo a gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae sicrhau gofal, cynhwysiant a hapusrwydd bob disgybl ac aelod o staff yn rhan annatod o ethos yr ysgol. Rhoddir pwyslais parhaus ar gynnal cymuned deuluol ei naws, sy’n seiliedig ar werthoedd cadarn, a lle gall bob unigolyn ffynnu a datblygu mewn amgylchedd cynhwysol, ysgogol a chroesawgar. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cadarn o ddiogelu a gweithdrefnau effeithiol iawn i hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. O ganlyniad, mae trefniadau’r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae’r pennaeth a’r tîm addysgu yn angerddol dros warchod lles bob disgybl ac yn sicrhau eu bod mewn lle cadarn i ddysgu. Mae ganddynt adnabyddiaeth drylwyr o anghenion lles a dysgu bron bob disgybl ac maent yn personoli’r ddarpariaeth i fynd i’r afael â’r rheini. Er enghraifft, maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd bob disgybl ac yn creu proffil un dudalen i bob unigolyn, bob dosbarth ac un i’r ysgol gyfan. Mae’r agwedd hon yn amlygu arfer dda ac yn gryfder o fewn yr ysgol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn hynod drefnus, cynhwysfawr ac effeithiol. Mae’r pennaeth, sy’n gyfrifol am gydlynu’r agwedd hon, yn cydweithio’n agos â’r tîm addysgu I adnabod y disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae staff cefnogi dysgu yn cynnig ystod o strategaethau a rhaglenni ymyrraeth i gefnogi lles a medrau sylfaenol y disgyblion sydd ar y gofrestr ADY, ynghyd â’r disgyblion hynny sy’n destun pryder. O ganlyniad, mae bron bob un o’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda. Yn ogystal, mae gan yr ysgol gyswllt clòs â rhieni disgyblion sydd ag ADY a pherthynas gynhyrchiol ag ystod amrywiol o asiantaethau allanol i gefnogi’r garfan hon o ddisgyblion.

Mae’r staff yn rhoi pwyslais cryf a pharhaus ar ddatblygu llais y dysgwr mewn modd cynhwysol a chyfartal. Mae staff yn darparu cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion fod yn aelodau gwerthfawr o gynghorau’r ysgol. Maent yn darparu cyfleoedd iddynt arwain llu o weithgareddau cyfoethog, fel trefnu prosiect ailgylchu papur lapio Nadolig sy’n hyrwyddo’u hymrwymiad at faterion cynaliadwy yn llwyddiannus iawn.

Mae hybu balchder y disgyblion yn eu hunaniaeth Gymraeg a Chymreig yn rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae’r tîm addysgu yn rhoi cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am chwedlau a chymeriadau fel Santes Dwynwen a Chantre’r Gwaelod. Mae’r strategaeth ‘Cymro neu Gymraes Yr Wythnos’ yn fodd effeithiol o gymell disgyblion i siarad Cymraeg ymhob sefyllfa. Mae’r ‘Criw Cymraeg’ yn ymgymryd â’u rôl i hybu Cymreictod ac annog eu cyfoedion i siarad Cymraeg o ddifri. Maent yn dangos balchder amlwg yn eu cyflawniadau, sy’n cynnwys trefnu eisteddfod yr ysgol yn flynyddol, ac arwain dathliad ‘Dydd Miwsig Cymru’.

Mae’r ysgol yn rhoi pwyslais amlwg iawn ar gynnig cyfleoedd i’r holl ddisgyblion ddysgu am faterion byd eang. Mae hyn yn fodd o ehangu eu gorwelion ymhellach. Er enghraifft, mae disgyblion yn nosbarthiadau’r adran dysgu sylfaen yn dysgu am fywyd yn Lesotho, a’r disgyblion ar frig yr ysgol yn cael gwersi Ffrangeg.

Mae’r tîm addysgu’n datblygu dealltwriaeth disgyblion o faterion ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol yn llwyddiannus. Rhoddir cyfle i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd fel cyfeillgarwch, goddefgarwch a pharchu amrywiaeth. Mae’r gwersi crefydd a moeseg yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd bron bob un disgybl yn dda.

Mae cynnal gweithgareddau fel bedydd ‘ffug’ yn y capel lleol, ynghyd â dysgu am, a chymharu, arferion yr Adfent, Diwali a Hannukah yn datblygu eu dealltwriaeth o ystod o grefyddau’n effeithiol iawn.

Mae hybu creadigrwydd y disgyblion yn nodwedd amlwg o ddarpariaeth yr ysgol. Er enghraifft, mae’n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gael gwersi offerynnol ac i berfformio o flaen cynulleidfa, fel ar ddiwedd gwasanaethau boreol ysgol gyfan. Adlewyrchir ymagwedd gynhwysol y pennaeth a’r staff yn y modd y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod bob disgybl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn sioeau, cyngherddau, eisteddfodau a gwasanaethau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae’r pennaeth yn arweinydd cadarn ac egnïol. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae hon yn seiliedig ar ddarparu cyfleoedd penodol i ddisgyblion ddatblygu'r medrau a'r wybodaeth angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i fod yn aelodau iach, galluog, creadigol, moesol a defnyddiol o gymdeithas sy’n newid yn gyflym. Mae’n gwneud hyn mewn amgylchedd dysgu cynhwysol, hapus a sefydlog sy’n anelu at sicrhau bod bob un yn datblygu’n ddysgwyr uchelgeisiol gydol oes. Mae’n cyfleu’r weledigaeth honno’n glir i ddisgyblion, staff, rhieni, llywodraethwyr ac aelodau’r gymuned leol.

Mae’r ysgol yn cynnal diwylliant o welliant parhaus yn effeithiol. Mae’r pennaeth, y pennaeth cynorthwyol a’r tîm addysgu yn cydweithio’n hynod effeithiol fel tîm i arwain yr addysgu ac i roi egwyddorion arwyddair yr ysgol, sef ‘Un tîm, un teulu – llwyddo gyda’n gilydd’, ar waith yn llwyddiannus. Ar y cyd, maent yn sicrhau bod y profiadau dysgu maent yn eu cynnig i’r holl ddisgyblion yn briodol, safonol, cyffrous, diddorol a chyfoethog.

Mewn ysgol o’r maint hwn, mae gan bron bob un o’r tîm addysgu rolau arwain mewn amrywiol feysydd ac mae gan bob un ddealltwriaeth gadarn o’u dyletswyddau. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, o’r tîm addysgu ac o’r disgyblion. Maent yn arddangos gwerthoedd da ac ymddygiad proffesiynol uchel sy’n cyfrannu’n hynod gadarnhaol at sicrhau bod yr ysgol yn hafan ddiogel a chartrefol i’r disgyblion a’r staff. Maent yn meithrin diwylliant diogelu cadarn, ac yn monitro cynnydd a lles yr holl ddisgyblion yn effeithiol dros ben. Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad y tîm addysgu’n barhaus i ganmol eu llwyddiannau proffesiynol a’u hannog i wella unrhyw feysydd penodol y cytunir y mae angen eu gwella er budd y disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso manwl a llwyddiannus iawn. Mae holl aelodau’r tîm arwain yn cyfrannu’n uniongyrchol at y broses, gan gynnwys y rheini sydd â chyfrifoldeb arwain mewn amrywiol feysydd. Mae llywodraethwyr, disgyblion a rhieni hefyd yn cyfrannu atynt yn rheolaidd. Mae’r gweithdrefnau hyn wedi eu seilio ar ystod o ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol, ac yn rhoi darlun hynod fanwl a chywir o’r sefyllfa gyfredol. Mae’r wybodaeth sy’n deillio ohonynt yn dylanwadu’n uniongyrchol ar y blaenoriaethau gwella ac yn canolbwyntio’n benodol ar gynnydd disgyblion. Mae gweithdrefnau gwella’r ysgol yn gynhwysfawr ac yn cael effaith gadarnhaol ar wella cyflawniad, cyrhaeddiad a chynnydd disgyblion.

Mae’r ysgol yn seilio gweithgareddau dysgu proffesiynol staff ar flaenoriaethau cenedlaethol, blaenoriaethau’r cynllun gwella ac ar eu hanghenion proffesiynol unigol. Mae arweinwyr yn monitro effaith y gweithgareddau hyn ar y ddarpariaeth a’r dulliau addysgu. Maent yn trefnu bod y tîm addysgu yn cael cyfleoedd achlysurol i arsylwi ar arfer dda mewn ysgolion eraill, fel gwahanol ddulliau o addysgu darllen, er enghraifft. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt arsylwi ar arferion addysgu llwyddiannus ei gilydd. Er enghraifft, mae athrawon wedi arsylwi ar ei gilydd yn ddiweddar i ddatblygu eu dulliau o fodelu iaith a gwella bwrlwm eu cyflwyniadau.

Mae llywodraethwyr yn darparu cydbwysedd synhwyrol a buddiol o gymorth a her i arweinwyr. Maent yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd i werthuso agweddau penodol o’r ddarpariaeth ac i gynnal trafodaethau â’r cydlynwyr. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’r ychydig feysydd sydd angen eu gwella. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu’n hynod wybodus at bennu’r blaenoriaethau strategol ac i gyflawni eu cyfrifoldebau fel cyfeillion beirniadol yn effeithiol iawn. Ynghyd â’r swyddog gweinyddol, maent yn rheoli cyllid yr ysgol yn fwriadus a darbodus. Mae hyn yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, sy’n cael ei ddefnyddio’n briodol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion. Maent hefyd yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau pwrpasol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan arweinwyr berthynas hynod gynhyrchiol â rhieni ac maent yn sicrhau bod ganddynt brosesau cyfathrebu effeithiol i’w galluogi i godi unrhyw faterion a all effeithio ar ddysgu a lles eu plant. Maent yn defnyddio gwefan yr ysgol, ap priodol, cyfryngau cymdeithasol, ac e-bost i wneud hyn. Mae arweinwyr yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i rieni fynegi barn am y ddarpariaeth ac maent yn ymateb yn amserol i’w sylwadau. Er enghraifft, yn dilyn cais gan rieni, maent wedi addasu’r trefniadau gwaith cartref. Mae’r gymdeithas rhieni a ffrindiau yn weithgar dros ben yn codi arian i gefnogi’r ysgol, gan sicrhau nad oes unrhyw ddisgybl o dan anfantais economaidd. Er enghraifft, mae’n cyfrannu’n hael at gostau ymweliadau addysgol. Mae’r rhieni’n gwerthfawrogi hyn yn fawr.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2024